




Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cod Ymarfer er Lles Cwningod

Dilyn y cod





ISBN 978 0 7504 5356 1

© Hawlfraint y Goron Medi 2009

CMK-22-01-148

D6310809



Rhagair

O dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 (“y Ddeddf”), os ydych yn berchen ar anifail neu’n gyfrifol am anifail mae dyletswydd gyfreithiol arnoch i gymryd pob cam rhesymol i ofalu am ei les. Mae’r Cod hwn yn esbonio’r hyn y mae angen i chi ei wneud i roi’r safon o ofal sy’n ofynnol o dan y gyfraith. Os ydych yn rhiant neu’n warcheidwad i blentyn o dan 16 oed, chi sy’n gyfrifol am unrhyw anifail sydd yn ei ofal neu y mae’n berchen arno.

Nid yw torri amodau’r Cod hwn yn drosedd ynddi’i hun ond, os caiff achos ei ddwyn yn eich erbyn am drosedd o dan y Ddeddf, efallai y byddai’r llys yn ystyried i ba raddau rydych wedi cadw at y Cod wrth benderfynu a ydych wedi cyflawni trosedd neu wedi rhoi’r gofal at y safon ofynnol. Ni ddylech achosi unrhyw ddiodefaint diangen i’ch anifail; gallai hynny fod yn drosedd ddifrifol o dan y Ddeddf.

Fe welwch hefyd gyfeiriad yn y Cod at ‘arbenigwyr gofal anifeiliaid anwes’, sef pobl sy’n gallu, drwy eu cymhwyster neu eu profiad, roi cyngor arbenigol ar les a rhai agweddau ar iechyd un neu fwy o fathau o anifail anwes. Mae enghreifftiau’n cynnwys ymddygiadwyr anifeiliaid, nyrsys milfeddygol a mudiadau lles penodedig. Dylai perchnogion ofyn i’w milfeddyg am gyngor ar iechyd eu hanifail a throi at arbenigwyr gofal am gyngor ar ofalu amdano a’i drin.

Am ragor o wybodaeth am Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 a manylion eich cyfrifoldebau o dan y Ddeddf honno, gweler Atodiad 1 ar ddiwedd y Cod hwn. Am ragor o ffynonellau gwybodaeth, darllenwch Atodiad 2.

Nid yw’r rhagair hwn yn rhan o’r Cod ond ei fwriad yw esbonio ei ddiben a’i nodau cyffredinol. Yn yr un modd, nid yw Atodiad 1, sy’n rhoi gwybodaeth am y gofynion cyfreithiol perthnasol nac Atodiad 2, sy’n rhestru rhai ffynonellau gwybodaeth ychwanegol, yn rhan o’r Cod.





Cynnwys

7 **Cyflwyniad**

9 **Rhan 1**
Crynodeb

19 **Rhan 2**
Beth yw cwningen a beth mae'n ei wneud?

23 **Adran 1: Amgylchedd**
Yr angen am amgylchedd addas

29 **Adran 2: Deiet**
Yr angen am ddeiet iach

33 **Adran 3: Ymddygiad**
Yr angen iddi allu dilyn patrymau ymddwyn naturiol

39 **Adran 4: Cwmni**
**Yr angen iddi gael bod gydag anifeiliaid eraill
neu ar wahân iddynt**

43 **Adran 5: Iechyd a Lles**
**Yr angen i'w diogelu rhag poen, dioddefaint,
anaf ac afiechyd**

51 **Atodiad 1**
Y Gyfraith






57 **Atodiad 2**
Ffynonellau gwybodaeth





Cyflwyniad

Mae hwyl a llawer o bleser i'w gael o fod yn berchen ar gwningen a gofalu amdani. Ond mae hefyd yn gyfrifoldeb mawr ac yn ymrwymiad hirdymor o ran arian a gofal. Chi fydd yn rheoli bywyd eich cwningen a'ch cyfrifoldeb chi fydd diwallu ei hanghenion, waeth beth fo'r amgylchiadau. O dan y gyfraith mae'n rhaid i chi gymryd camau rhesymol i sicrhau'r canlynol:

-  bod ganddi amgylchedd addas i fyw ynddo;
-  ei bod yn cael deiet iach;
-  ei bod yn cael ymddwyn yn naturiol;
-  ei bod yn cael cwmni priodol;
-  ei bod yn cael ei diogelu rhag poen, dioddefaint, anaf ac afiechyd.

Rydym yn eu hesbonio'n fanylach yn adrannau 1-5 o'r Cod hwn. Am ragor o gyngor, siaradwch â'ch milfeddyg neu arbenigwr gofal anifeiliaid anwes. Rhestrir ffononellau gwybodaeth eraill yn Atodiad 2.

Mae pob anifail yn wahanol ac wrth i chi ddod i adnabod eich cwningen, byddwch yn sylwi ar ei nodweddion arbennig. Mae'n bwysig eich bod yn sylwi ar unrhyw newidiadau yn ei hymddygiad, oherwydd gallai'r rhain awgrymu bod eich cwningen o dan straen, yn sâl, neu'n cael ei hesgeuluso mewn rhyw ffordd arall.

Cyhoeddir y Cod Ymarfer hwn o dan adran 14 o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 (y "Ddeddf"). Dim ond i Gymru y mae'r Cod Ymarfer hwn yn berthnasol, a chaiff ei gyhoeddi gan Weinidogion Cymru a bydd yn dod i rym ar 11 Tachwedd 2009. Mae'r Cod yn berthnasol i bob un sydd â chyfrifoldeb am gwningod sy'n cael eu cadw fel anifeiliaid anwes. Mae cod arall ar gael ar gyfer cwningod fferm, a chaiff y cod hwnnw ei ddiwygio maes o law i'w gysoni â'r Cod hwn. Mae anifeiliaid anwes yn cynnwys "*any animal kept by private individuals or groups for companionship, interest or hobby, and for breeding, supply or education related to their keeping for these purposes.*" (Cyngor Lles Anifeiliaid Anwes, 2003).

Mae'r Cod hwn wedi'i rannu'n ddwy ran. Crynodeb yw Rhan 1 o'r manylion a geir yn y prif God Ymarfer, sef Rhan 2.

Eich cyfrifoldeb chi yw darllen y Cod Ymarfer cyflawn i ddeall yn llwyr anghenion lles eich cwningen a'r hyn sy'n ofynnol gennych o dan y gyfraith.





Rhan un

Crynodeb o'r
Cod Ymarfer er
Lles Cwningod







Adran 1 - Amgylchedd

Gwnewch yn siwr bod gan eich cwningen amgylchedd addas i fyw ynddo.


Lle byw (cwt neu gawell)

Dylai lle byw'ch cwningen gynnwys o leiaf ddwy ran: ystafell dywyll a chysgodol i gysgu ynddi ac un arall i fwyta/ymlacio ynddi. Dylai fod yn gyfforddus, yn sych, yn lân, wedi'i hawyru'n dda a heb ddrafftiau. Dylai'ch cwningen deimlo'n ddiogel ynddo a dylai ei hamddiffyn rhag anifeiliaid ysglyfaethus a rhag tywydd, gwres ac oerfel mawr. Dylid defnyddio naddion pren neu garpion papur fel man tŷ bach.

Dylai lle byw'ch cwningen fod yn ddigon mawr iddi allu symud o gwmpas, bwyta ac yfed yn ddiraferth.

Dylai'r lle byw fod yn ddigon mawr iddi allu gorwedd ac ymestyn ar ei hyd yn gyfforddus i bob cyfeiriad, yn ddigon uchel i'ch cwningen allu sefyll ar ei thraed ôl heb i'w chlustiau gyffwrdd â'r to, a dylai hefyd fod yn ddigon hir iddi allu symud o amgylch, bwyta ac yfed. Fel canllaw bras, dylai'r gwningen allu rhoi o leiaf tair naid o un pen i'r llall.

Os ydych yn cadw sawl cwningen lawndwf gyda'i gilydd, gofalgwch fod digon o le ganddyn nhw i wneud yr holl bethau uchod yr un pryd. Gofalgwch hefyd fod digon o guddfannau diogel i bob un allu bod ar ei phen ei hun os yw'n dymuno.





Yr ardal ymarfer corff (y gorlan)

Dylai'ch cwningen gael mynd i 'gorlan' ddiogel bob dydd i redeg a sboncio. Dylai'r 'gorlan' fod mor fawr â phosibl a dylai'r gwningen allu ymestyn i'w thaldra llawn a rhedeg yn ogystal â neidio ynddi. Dylai ei hamddiffyn rhag anifeiliaid ysglyfaethus a rhag tywydd, gwres ac oerfel mawr. Dylai fod lle ynddi i'ch cwningen fynd i guddio os dyna'i dymuniad.

Os oes mwy nag un gwningen lawndwf yn ymarfer yn y gorlan gyda'i gilydd, rhaid bod digon o le iddyn nhw i gyd allu ymddwyn fel hyn yr un pryd.

Peryglon

Gofalwch na all eich cwningen ddod i gysylltiad â sylweddau peryglus.

Diogelwch

P'un a ydych yn cadw'ch cwningen y tu mewn neu'r tu allan, gofalwch na fydd yn gallu dianc a'i bod yn ddiogel rhag anifeiliaid eraill, ymwelwyr digroeso neu hyd yn oed ladron.

Teithio

Gofalwch wrth gludo'ch cwningen eich bod yn gwneud hynny'n ddiogel. Ar deithiau hir, dylech gynnig bwyd, dŵr a'r defnydd o flwch sarn yn rheolaidd iddi y tu mewn i gerbyd llonydd.

Peidiwch â gadael cwningen ar ei phen ei hun mewn cerbyd mewn tywydd poeth.
Gall fod yn berygl bywyd iddi.

Pan fyddwch oddi cartref

Rhaid ichi drefnu i unigolyn addas ofalu am eich cwningen pan fyddwch oddi cartref. Rhaid i rywun cyfrifol roi sylw i'ch cwningen bob dydd.



Adran 2 - Deiet

Gofalwch fod eich cwningen yn cael deiet cytbwys sy'n diwallu ei hangen am faeth.

Gofalwch fod dŵr glân ffres ar gael i'ch cwningen bob amser a'i bod yn cael deiet cytbwys.

Gwair a phorfa fydd trwch bwyd eich cwningen, a dylent fod ar gael drwy'r amser. Planhigion gwyrdd ac ychydig o fwyd arbennig i gwningod fydd y gweddill.

Peidiwch â newid deiet eich cwningen yn sydyn gan y gallai hynny achosi camdreuliad a'i gwneud yn sâl iawn.

Pwysau iach

Gofalwch nad yw'ch cwningen yn rhy dew nac yn rhy denau. Yn ddelfrydol, dylech allu teimlo ei hasennau'n hawdd.

Anghenion deietegol eraill

Mae angen bwyd gwahanol ar rai cwningod. O dan yr amgylchiadau hyn, bydd eich milfeddyg neu'ch arbenigwr gofal anifeiliaid anwes yn gallu'ch cynghori ar sut i ofalu am eich cwningen.





Adran 3 - Ymddygiad

Dylai'ch cwningen fod yn cael ymddwyn yn naturiol.

Ymddygiad nodweddiadol

Mae gan gwningod lawer o anghenion penodol sy'n gallu eu gwneud nhw'n anifeiliaid cymhleth i'w cadw. Mae a wnelo'r anghenion hyn â'r ffaith bod cwningod yn fwyd i gymaint o anifeiliaid gwahanol a'u bod felly'n anifeiliaid nerfus ac yn hawdd iawn eu dychryn. Wrth gyflwyno cwningod i bethau newydd, dylech roi cyfle iddynt ddianc i guddfan ddiogel bob tro.

Hyfforddiant

Mae'n cymryd amser ac ymdrech i hyfforddi'ch cwningen yn iawn. Dylech wobrwyo ymddygiad da ar unwaith â rhywbeth y mae'ch cwningen yn ei hoffi.

Peidiwch byth â gweiddi ar eich cwningen na'i chosbi. Ni fydd yn deall a byddwch yn ei gwneud yn nerfus ac yn codi ofn arni. Os ydy ymddygiad eich cwningen yn dal i fod yn broblem, cysylltwch ag arbenigwr.

Arwyddion o Straen

Cadwch lygad ar eich cwningen am ymddygiad anarferol. Os ydych yn ansicr, siaradwch â'ch milfeddyg neu arbenigwr.

Diflastod

Gofalwch fod eich cwningen yn cael digon i symbylu ei meddwl gennych chi a'i hamgylchedd i osgoi diflastod a rhwystredigaeth. Bydd cwningen sydd heb ddim i'w wneud yn colli'i hiechyd ac yn mynd yn anhapus ac, o bosibl, yn ffyrnig mewn byr amser.

Rhowch deganau diogel iddi chwarae â nhw a'u cnoi, a digon o gyfle i chwarae â phobl neu â chwningod cyfeillgar eraill.

Rhowch ddeunydd addas i'ch cwningen iddi allu cloddio a manau lle gall farcio ei thiriogaeth gyda hylif o'i gên, ei dŵr a'i baw.



Adran 4 - Cwmni

Gofalwch fod anghenion cymdeithasol eich cwningen yn cael eu diwallu.

Cymdeithasoli

Mae cwningod yn anifeiliaid cymdeithasol, ac yn ddelfrydol dylech eu cadw gyda chwningen arall. Cwningod wedi'u sbaddu ac sy'n debyg o ran maint sy'n gwneud y parau gorau.

Edrychwch sut mae'ch cwningen yn ymateb i gwningod ac anifeiliaid eraill. Os nad yw'n cymysgu'n dda â nhw, bydd angen i chi ei chadw ar wahân neu ei chadw hi a/neu'r anifeiliaid eraill o dan reolaeth addas.

Mae'n bwysig eich bod yn trafod eich cwningen bob dydd o'r dyddiau cyntaf, ond nid tan ei bod yn wythnos oed o leiaf.

Perthynas ag anifeiliaid eraill a phobl

Rhowch ddigon o bethau i ysgogi meddwl eich cwningen. Gallwch wneud hynny drwy adael iddi ddod i gysylltiad â chwningod neu anifeiliaid eraill neu â phobl. Peidiwch byth â gadael eich cwningen ar ei phen ei hun gyda chath neu gi.





Mae cymdeithasoli â phobl, cwningod ac anifeiliaid eraill yn rhan bwysig o addysg cwningen ifanc. Mae'r cyfnod dysgu pwysig hwn yn digwydd o fewn y tair i bedair wythnos gyntaf, ond gall bara ymhell wedi hynny.

Nifer yr anifeiliaid

Mae angen cryn dipyn o ofal ar grŵp mawr o anifeiliaid. Ni ddylech gadw llawer o gwningod os na allwch ofalu am eu lles i gyd. Os oes gennych fwy nag un gwningen, dylech ystyried eu sbaddu (gweler adran 5).



Adran 5 - Iechyd a Lles

Mae'n rhaid i chi sicrhau bod eich cwningen yn iach.

Gofal iechyd

Dylech archwilio'ch cwningen bob dydd ac edrych am arwyddion o anaf a salwch. Yn benodol, cadwch olwg ar ben-ôl eich cwningen, yn arbennig am faw meddal sy'n glynu wrth ei blew. Mae pen-ôl brwnt yn denu clêr i ddodwy a gall y cynrhon ladd cwningen. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn ystod tywydd poeth. Mae'n rhaid i chi sicrhau bod eich cwningen yn cael ei thrin yn ddi-oed gan filfeddyg os yw'n cael ei hanafu neu os yw'n sâl.

Rhag tynnu sylw'r llawer o anifeiliaid sy'n eu hela, dyw cwningod ddim yn dangos arwyddion salwch nes eu bod yn sâl iawn. Gall unrhyw newid yn ei hymddygiad, gan gynnwys colli'r awydd am fwyd, fod yn arwydd bod eich cwningen yn sâl.

Ewch â'ch cwningen am archwiliadau iechyd rheolaidd; bydd modd i filfeddyg roi gwybod i chi am driniaethau cyffredin fel sbaddu, brechu (e.e. Mycosomatosis a Chlefyd Gwaedlifol Firaol (VHD)), a rheoli paraseitiaid (e.e. chwain), yn ogystal ag unrhyw broblemau iechyd a allai fod gan eich cwningen.

Trin a golchi

Dylech sicrhau bod blew eich cwningen yn cael ei gribo'n iawn. Efallai y bydd arbenigwr yn gallu'ch cynghori ar sut i ofalu am ei blew. Edrychwch o leiaf unwaith bob wythnos ar ddannedd blaen ac ewinedd eich cwningen, gan eu bod nhw'n gallu tyfu'n gyflym. Dim ond milfeddyg ddylai geisio trin dannedd sydd wedi tyfu'n ormodol neu sy'n gam.

Adnabod

Gofalwch nad yw'ch cwningen yn cael dianc. Beth am roi dyfais adnabod fel microsglodyn arni er mwyn i bobl allu ei dychwelyd os aiff i grwydro.



Rhan 2





Beth yw cwningen a beth mae'n ei wneud?

Dim ond drwy ddeall cwningod y gallwn ddiwallu eu hanghenion corfforol ac ymddygiadol. Er ein bod yn meddwl yn aml ein bod yn gwybod beth sydd ei eisiau neu ei angen arni i'w chadw'n iach ac yn hapus, gall hyn weithiau fod yn wahanol iawn i'r hyn sydd ei wir eisiau neu ei wir angen arni.

Mae pob cwningen ddof yn ddisgynnydd o'r gwningen Ewropeaidd wyllt, y mae ei henw Lladin *Oryctolagus cuniculus* yn golygu "anifail tebyg i ysgyfarnog sy'n cloddio llwybrau o dan ddaear". (Daw'r enw Cymraeg o'r enw Lladin). Mae'r enw hwn yn disgrifio ymddygiad cynhenid y gwningen, sef byw o dan ddaear mewn tyllau gan ddod i'r wyneb gyda'r nos a dychwelyd o dan ddaear yn fuan ar ôl iddi wawrio. Mae cwningod yn treulio llawer o'u hamser mewn mannau tywyll neu led-dywyll. Dydyn nhw ddim yn hoffi goleuadau llachar.

Allan o'u tyllau, mae cwningod gwyllt mewn perygl cyson. Yn Sbaen, un o'u gwledydd brodorol, mae dros 20 o fathau o anifeiliaid ysglyfaethus yn hela ac yn bwyta cwningod. Ym Mhrydain, mae cwningod gwyllt a dof yn brae i gadnoid/llwynogod, cathod, adar a charlymod. Mae'r ffaith eu bod yn anifeiliaid prae yn effeithio ar sut a beth y maen nhw'n ei fwyta, sut maen nhw'n cyfathrebu â'i gilydd a sut maen nhw'n treulio eu hamser. Mae'r un pethau'n effeithio ar y cwningod dof rydym ni yn eu cadw. Mae deall bod cwningod yn anifeiliaid prae (sy'n cael eu hela) yn ein helpu i ddeall pa ddeiet ac amgylchedd sy'n addas iddyn nhw.

Mae cwningod yn bwyta glaswelltau a pherlyisiau. Maen nhw wedi ymaddasu i fyw yn sychder de Sbaen, lle ceir hafau poeth ac ychydig iawn o law, a llystyfiant gwael. Mae eu dannedd a'u system dreulio wedi'u datblygu ar gyfer y bwyd ffeibrog hwn o ansawdd gwael. Maen nhw'n pori'r glaswellt â'u dannedd blaen, miniog arbennig ac yn ei gnoi â'u dannedd ôl. Mae eu dannedd yn tyfu'n barhaus drwy gydol eu bywyd. Mae cwningod yn treulio tua 70% o'u amser ar ddiun yn bwyta.

Mae cwningod yn anifeiliaid cymdeithasol, sy'n byw mewn grwpiau sefydlog o 2 i 10 o anifeiliaid. Mae grwpiau o ddau yn cynnwys gwryw a benyw fel arfer, ond bydd mwy o fenywod na gwrywod mewn grwpiau mwy fel rheol. Mae'r berthynas agos rhwng unigolion mewn grŵp a'r gwmnïaeth y maen nhw'n ei mwynhau yn gwneud i'r cwningod deimlo'n ddiogel ac yn eu helpu i oroesi. Mae hierarchaeth yn bodoli ymhlith y gwrywod llawn-dwf mewn grŵp, tra bod benywod yn tueddu i oddef ei gilydd, ond gall sgarmesau difrifol hyd at angau ddigwydd yn ystod y tymor bridio.

Er eu bod yn anifeiliaid cymdeithasol, nid oes gan gwningod arferion cyfarch mawreddog na signalau cyfathrebu swllyd, yn wahanol i gathod a chŵn. Mae cwningod yn brae i lawer o anifeiliaid. Byddai unrhyw arferion swllyd neu weledol iawn ond yn denu sylw anifeiliaid ysglyfaethus.



Mae cwningod sydd mewn poen neu sydd wedi dychryn yn dangos arwyddion cynnil iawn. Mae perchnogion yn aml yn camddeall neu hyd yn oed yn anwybyddu'r arwyddion hyn. Mae cwningod yn gwneud amrywiaeth o synau, gan gynnwys rhochian, chwynu, canu grwndi ac mae cwningen sydd wedi cael braw mawr yn sgrechian. Mae ganddyn nhw hefyd amrywiaeth o ystumiau ar gyfer eu cyrff a'u clustiau sy'n gallu dynodi statws, pleser, poen neu ddiacter.

Mae arogl yn ffordd bwysig o gyfathrebu i gwningod. Mae'n ddefnyddiol i anifail sy'n treulio cymaint o'i amser yn y tywyllwch, ac i anifail nad yw am dynnu sylw ato'i hun.

Mae cwningod yn rhwbio eu gēn dros wrthrychau a chwningod eraill, a thros eu perchnogion ac ymwelwyr hefyd. Mae cwningod gwryw a benyw yn gwneud hyn, ond gwrywod yn fwy na benywod. Mae'r hylif o'r chwarran sawr yng ngēn y gwningen yn gallu gwneud yr ên yn llaith ac yn ludiog. Mae cwningod yn defnyddio'r hylif i farcio'u tiriogaeth ac mae hefyd yn ffordd iddyn nhw adnabod ei gilydd. Mae'n rhoi sicrwydd i'r gwningen ei bod ymhlith ffrindiau a'i bod ar ei thir ei hunan, ac mae'r arogl yn cadw cwningod dieithr draw.

Mae cwningod hefyd yn gadael sawr yn eu baw. Mae cwningod yn cynhyrchu darnau bach crwn a chaled o faw wrth symud o gwmpas, yn enwedig wrth fwyta. Bydd cwningod yn crafu'r ddaear ger ffiniau eu tiriogaeth ac yn gadael peth baw yno i'w marcio. Maen nhw hefyd yn creu carthfeydd (tomen o faw). Yr ymddygiad naturiol hwn sy'n ei gwneud mor hawdd dysgu cwningen i beidio â baeddu yn y tŷ. Mae pob aelod o'r grŵp yn defnyddio carthfeydd ac, yn y gwyllt, gallant gynnwys miloedd o beledi baw wedi'u gwasgu'n dynn yn ei gilydd. Maen nhw fel arfer mewn mannau sydd ar lefel ychydig yn uwch, fel hen foncyff coeden neu bridd gwadd. Mae'r carthfeydd yn signal clir i gwningod eraill. I'r cwningod yn y grŵp, maen nhw'n arwydd clir o derfynau eu tiriogaeth, ac maen nhw fel arwyddion 'Dim Mynediad' i gwningod eraill.

Mae cwningod yn gadael sawr hefyd yn eu dŵr. Yn wahanol i gathod a chŵn sy'n tueddu i chwistrellu gwrthrychau o'u cwmpas, mae cwningod yn chwistrellu ei gilydd ac, weithiau, bobl neu anifeiliaid eraill sy'n byw gyda nhw! Maen nhw'n gwneud hyn trwy redeg heibio, troi rhan ôl eu corff a chwistrellu wrin dros y targed. Gwrywod sy'n gwneud hyn yn bennaf a hynny weithiau ar wrywod eraill neu gwningod dieithr, ond yn amlach na pheidio, mae'n rhan o'r ddefod baru.

Mae cwningod yn anifeiliaid deallus. Maen nhw'n chwilfrydig iawn am eu hamgylchedd ac am unrhyw newidiadau sy'n digwydd ynddo. Mae'n bwysig yn y gwyllt eu bod yn sylwi ar unrhyw beth newydd rhag ofn y gallai eu rhwystro rhag rhedeg i'w tyllau wrth iddyn nhw ddianc rhag anifeiliaid ysglyfaethus .

Mae cwningen yn dychryn yn hawdd iawn. Mae hefyd yn tueddu i gofio beth wnaeth ei dychryn. Yn y gwyllt, mae adar o'r awyr ac anifeiliaid ar y ddaear a hyd yn oed dan y ddaear yn eu tyllau yn ymosod arnyn nhw. Felly, mae cwningod gwyllt a dof yn gorfod



bod yn effro iawn i berygl. Eu hymateb cyntaf yw rhewi, ond maen nhw'n rhedeg i ffwrdd os daw'r perygl yn rhy agos. Dim ond os nad oes ffordd o ddianc y mae cwningod yn tueddu i ymladd. Dyna sy'n digwydd os oes ofn cael ei chodi a'i dal ar gwningen. Bydd yn ceisio dianc yn gyntaf drwy redeg o gwmpas ei lle byw; yna gallai droi a brathu, gan ei bod yn methu â dianc. Mae symudiadau sydyn, synau uchel a sydyn, goleuadau llachar ac arogleuon cryf yn codi ofn ar gwningod. Bob blwyddyn ym Mhrydain, caiff miloedd o gwningod eu rhoi i lochesi achub, a hynny'n aml am fod eu hymddygiad wedi'i gamddeall a'u bod wedi troi'n ffyrnig. Mae ymddygiad o'r fath yn arwydd eu bod yn dioddef, ac mae'n broblem lles yn gymaint ag y mae'n broblem iechyd.

Dylai'r wybodaeth yn y Cod Ymarfer hwn eich galluogi i ddarparu amgylchedd da er lles eich cwningen, fel y gallwch chi a'ch cwningen gael perthynas hapus â'ch gilydd.


Crynodeb o ffeithiau am gwningod

Cwningod:	Gelwir cwningod gwryw yn fychod. Nid oes enwau Cymraeg penodol am gwningod benyw na chwningod ifanc.
Llysusyddion	yn bwyta planhigion, glaswellt a pherlysiâu ffeibrog yn bennaf.
Arbenigol	mae ganddynt ddannedd sy'n tyfu'n barhaus, maent yn cynhyrchu peledi meddal o faw (caecotroffau) y maent yn eu bwyta fel arfer a pheledi caled o faw.
Anifail prae	mae ganddynt lawer o elynion e.e. tylluanod, boncathod, cadnoid/llwynogod, cŵn a chathod.
Cymdeithasol	mae angen cwmni arnynt, cwningod eraill os yn bosibl.
Bywiog	mae angen lle arnynt.
Chwilfrydig	mae angen symbyliad meddyliol arnynt.
Ofnus	mae angen cuddfannau arnynt.
Disgwyliad oes:	8 i 12 mlynedd (weithiau fwy).
Pwysau corff cwningen yn ei llawn dwf:	1 i 8 Kg (yn amrywio yn ôl brîd a rhyw).
Beichiogrwydd:	Rhwng 30 a 33 o ddiwrnodau.
Maint torllwyth:	Ceir rhwng 4 a 12 (cyfartaledd = 7) o gwningod bach mewn torllwyth. Mae maint y torllwyth yn dibynnu ar frîd y gwningen. Fel arfer bydd bridiau llai yn cael torllwythi o 2-4, bydd bridiau canolig eu maint yn cael torllwythi o 4-6, a bydd bridiau mwy yn cael torllwythi o 6-10.
Oedran diddyfnu	5-6 wythnos.



**Cod Ymarfer
er Lles Cwningod
Adran 1 - Amgylchedd**





Amgylchedd

Yr angen am amgylchedd addas

- 1.1 Mae'r adran hon yn cynnig cyngor ar sut i roi lle addas i'ch cwningen fyw ynddo.
- 1.2 Yn y ddogfen hon:
 - mae **lle byw** yn cyfeirio at y man gorffwys a chysgu (e.e. cawell neu gwt).
 - mae '**corlan**' yn cyfeirio at y lle ymarfer corff.
- 1.3 Amgylchedd cwningen yw'r man lle mae'n byw - nid yn unig y man lle mae'n cysgu, yn bwyta, yn ymarfer corff ac yn mynd i'r toiled, ond unrhyw fan y gall fynd iddo. Mae'r amgylchedd hefyd yn cynnwys yr holl wrthrychau y mae cwningen yn dod i gysylltiad â nhw a'r defnyddiau, megis gwellt, sydd eu hangen arni i'w chadw'n iach ac yn hapus. Dylech ofalu bod ganddi ddigon o le wedi'i awyru'n dda, sy'n ei hamddiffyn rhag ysglyfaethwyr a gwres ac oerfel mawr.
- 1.4 Dylai cwningen gael gwneud pob un o'r canlynol:
 - gorffwys a chysgu yn gyfforddus;
 - bwyta ac yfed mewn llonyddwch;
 - ymarfer corff ac archwilio'r byd o'i chwmpas yn ddiogel;
 - cuddio os yw'n teimlo'n ofnus neu'n ansicr;
 - cysgodi rhag y tywydd gan gynnwys gwynt, oerfel, glaw a haul;
 - cael cwmni (a dianc rhagddynt);
 - chwarae os yw'n dymuno;
 - cnoi ar rywbeth bob tro y mae'n teimlo'r angen;
 - marcio ei sawr ar wrthrychau solet;
 - cadw golwg am 'bartneriaid' neu am berygl.

Lle byw

- 1.5 Dylai lle byw eich cwningen gynnwys o leiaf ddwy ran: stafell dywyll a chysgodol i gysgu ynddi a stafell arall i fwyta/ymlacio ynddi.
- 1.6 Dylai'r lle byw fod mor fawr â phosibl. Dylai:
 - fod yn ddigon mawr i'ch cwningen allu gorwedd ac ymestyn yn gyfforddus i bob cyfeiriad;
 - bod yn ddigon uchel i'ch cwningen allu sefyll ar ei thraed ôl heb i'w chlustiau gyffwrdd â'r to;



- bod yn ddigon hir fel y gall eich cwningen symud o gwmpas, bwyta ac yfed. Fel canllaw, dylai eich cwningen allu neidio o leiaf deirgwaith o un pen i'r llall.

Os yw eich cwningen yn byw y tu allan

1.7 Dylai lle byw eich cwningen fod:

- yn gryf, yn dal dŵr ac yn hawdd i'w lanhau;
- wedi'i godi oddi ar y llawr;
- wedi'i roi mewn man cysgodol.

1.8 Yn ystod misoedd y gaeaf, dylech roi'r lle byw mewn garej segur neu sied neu ei ddiogelu ryw ffordd arall rhag tywydd gwael. Mae llawer o'r farn bod sied fach â drws cathod sy'n arwain at gorlan ddiogel yn gwneud cartref parhaol da i gwningen.

Cadw eich cwningen o dan do

1.9 Dylai cwningen sy'n cael ei chadw yn y tŷ gael lle diogel iddi hi ei hun, lle gall deimlo'n ddiogel, cysgu, mynd i'r toiled a chael ei chadw ynddo pan nad oes neb i gadw golwg arni.

Efallai na fydd angen i gwt sy'n cael ei gadw mewn sied neu yn y tŷ drwy'r amser allu dal dŵr cystal â chwt sy'n cael ei gadw'r tu allan.

Deunydd gwely

1.10 Dylid darparu gwellt (sarn) i gadw'ch cwningen yn gynnes ac i roi rhywle iddi guddio ac i gnoi arno. Dylai'r deunydd fod yn lân ac yn sych a dylai hefyd fod yn ddiogel i'ch cwningen ei fwyta. Deunydd fel gwair a gwellt.

Lle ymarfer corff - y 'gorlan'

1.11 Mae cwningod yn anifeiliaid bywiog ac ystwyth iawn. Mae'n bwysig eu bod yn cael cropian, neidio a rhedeg o gwmpas. Mae neidio ar ben ac oddi ar bethau uchel, megis llwyfannau cadarn addas neu fêls gwair, yn helpu cwningod i gadw'u hesgyrn a'u cyhyrau'n gryf. Os nad yw'ch cwningen yn gwneud digon o ymarfer corff, gall ei hesgyrn fynd yn wan a thorri, a hynny dim ond wrth iddi wingo pan fyddwch yn ei chodi hyd yn oed.

1.12 Dylai'ch cwningen gael mynd i'w chorlan bob dydd a chael rhedeg a neidio. Dylai'r gorlan fod mor fawr â phosibl fel ei bod yn cael ymestyn i'w thaldrallawn a rhedeg, yn hytrach na sboncio yn unig. Dylai'r gorlan gynnwys mannau uchel i'r gwningen gael neidio oddi arnynt ac yn ddelfrydol, dylai fod y tu allan gyda



glaswellt yn tyfu ynddi. Ni ddylai'r gwningen allu dianc ohoni a dylai fod yn ddigon diogel i atal unrhyw anifeiliaid ysglyfaethus. Dylai'r gorlan gysgodi'r gwningen a'i hamddiffyn rhag y gwynt a'r glaw.

- 1.13** Os ydych yn cadw mwy nag un anifail gyda'i gilydd, gofalwch fod pob cwningen yn gallu cael cysgod rhag yr haul, y gwynt a'r glaw i gyd yr un pryd a dewis aros gyda'i gilydd neu fod ar wahân.

Y tu mewn a'r tu allan: amddiffyn rhag anifeiliaid ysglyfaethus

- 1.14** Dylai'r lle byw a'r gorlan amddiffyn cwningod rhag ysglyfaethwyr fel cŵn, cathod, cadnoid/llwynogod, llygod mawr ac adar ysglyfaethus.
- 1.15** Dylai fod cuddfannau addas ar gael bob amser y gall y cwningod redeg iddyn nhw os ydyn nhw'n teimlo ofn, straen, yn sâl neu os ydyn nhw am dreulio tipyn o amser ar eu pen eu hunain (gweler Adran 4 hefyd).
- 1.16** Dylai fod gan bob anifail o leiaf un guddfau bob amser.
- 1.17** Dylai'r cuddfannau fod o faint priodol i'ch cwningen a dylai fod mwy nag un ffordd o fynd i mewn iddyn nhw.
- 1.18** Mae cuddfannau addas yn cynnwys blychau cardbord neu flychau pren, sachau papur, rhannau o bibelli draenio llydan a silffoedd y gall eich cwningen guddio oddi tanynt. Bydd angen i chi sicrhau nad yw'r rhain yn wenwynig ac nad oes ganddyn nhw ymylon miniog.

Awyru a'r tymheredd

- 1.19** Dylech amddiffyn eich cwningod rhag tywydd gwael yn ogystal â haul cryf neu newid yn y tymheredd - hyn yn y lle byw ac yn y gorlan.
- 1.20** Y tu allan, gallai gorchudd, blanced neu ddarn o hen garped gynnig cysgod ychwanegol ar nosweithiau oer cyn belled nad oes perygl iddyn nhw fygu'r gwningen.
- 1.21** Y tu mewn, rhowch le byw'ch cwningen mewn ystafell led oer heb ddrafftiau, o lygad yr haul. Gofalwch nad yw'n agos i wresogyddion a synau uchel.

Hylendid

- 1.22** Un agwedd ar ddarparu amgylchedd addas i'ch cwningen yw sicrhau ei fod yn ddiogel ac yn lân
- 1.23** Dylech ddefnyddio naddion pren neu garpion papur ar gyfer ei thoiled. Fel arall, darparwch flwch â deunydd nad yw'n wenwynig ac nad yw'n clystyru'n dalpiâu.



- 1.24** Dylech lanhau lle byw eich cwningen bob dydd. Dylech:
- daflu naddion neu ddeunydd gwely gwlyb neu frwnt a rhoi rhai newydd yn eu lle;
 - taflu unrhyw fwyd ffres sydd heb ei fwyta;
 - glanhau cynwysyddion dŵr a bwyd yn drylwyr cyn eu hail-lenwi.
- 1.25** Dylech lanhau'r lle byw i gyd yn drwyadl o leiaf unwaith yr wythnos ond dylech ei lanhau gymaint ag sydd ei angen i sicrhau bod gan eich cwningen le glân i fyw ynddo.
- 1.26** Dylech:
- ddefnyddio diheintydd o ansawdd da sy'n addas ar gyfer anifeiliaid, a'i rinsio a gadael iddo sychu cyn gadael i'ch cwningen ddychwelyd i'r cwt;
 - rhoi deunydd gwely a naddion ffres a thafu'r hen rai i gyd. Efallai y bydd yn ddefnyddiol gadael ychydig o'r hen ddeunydd gwely glân fel bod eich cwningen yn teimlo'n ddiogel.
- 1.27** Dylech symud y gorlan, neu lanhau'r man lle rydych yn ei gosod yn rheolaidd.
- 1.28** Ni ddylech gadw mwy o anifeiliaid nag y gallwch ofalu amdany'n nhw a diwallu eu hanghenion. Mwy'n y byd o anifeiliaid sydd gennych, mwy'n y byd o waith y mae angen i chi ei wneud i'w cadw'n lân.

Diogelu rhag gwenwyn a pheryglon eraill

- 1.29** Byddwch yn ofalus wrth ddefnyddio chwynladdwyr neu blaladdwyr.
- 1.30** Peidiwch â gadael i'ch cwningen fynd at welyau blodau na mannau eraill sy'n debygol o gynnwys planhigion gwenwynig.
- 1.31** Os ydych yn cadw eich cwningen yn y tŷ, peidiwch â gadael iddi fynd yn agos at wifrau trydan rhag iddi eu cnoi a niweidio'i hun.
- 1.32** Gofalwch fod deunyddiau glanhau'r tŷ, moddion neu gynhyrchion eraill ar gyfer pobl neu anifeiliaid eraill yn cael eu cadw allan o'i gafael.
- 1.33** Yn y tŷ, ni ddylech gadw planhigion a allai fod yn wenwynig neu rhowch nhw allan o gyrraedd eich cwningen.
- 1.34** Dylech gysylltu â'ch milfeddyg yn syth os ydych yn credu bod eich cwningen wedi dod i gysylltiad ag unrhyw beth a allai wneud niwed iddi.

Teithio

- 1.35** Efallai y bydd angen i chi gludo eich cwningen yn y car neu mewn cerbyd arall.
- 1.36** Dylech gludo cwningod mewn blwch cludo diogel sy'n addas o ran maint ac sydd wedi'i awyru'n dda.



- 1.37 Dylai'ch cwningen fod yn gyfarwydd â'r blwch cludo fel ei bod yn teimlo'n gyfforddus ac yn ddi-straen wrth gael ei chludo.
- 1.38 Defnyddiwch wregys diogelwch i ddal y blwch cludo rhag symud, neu rhowch e ar lawr y car, gan sicrhau ei fod yn cael digon o aer.
- 1.39 Peidiwch â rhoi'r blwch cludo mewn man sy'n rhy dwym i'ch cwningen, fel yn llygad yr haul neu wrth ymyl gwresogydd y car. Peidiwch â'i roi yng nghist car salŵn.
- 1.40 Ar deithiau hir, dylech gynnig bwyd, dŵr a'r defnydd o flwch sarn i'r gwningen yn rheolaidd, ond dim ond y tu mewn i'r cerbyd pan fydd wedi stopio.
- 1.41 Peidiwch â gadael eich cwningen ar ei phen ei hun mewn cerbyd mewn tywydd poeth. **Gall hyn fod yn berygl bywyd a gallech gael eich erlyn am greulondeb.** Gall y cerbyd fynd yn boeth iawn yn gyflym iawn ac achosi trawiad gwres a hyd yn oed farwolaeth.

Pan fyddwch i ffwrdd

- 1.42 Mae gennych gyfrifoldeb i sicrhau bod rhywun yn gofalu am eich cwningen tra'ch bod i ffwrdd. Rhaid i rywun sy'n gofalu am gwningen ar eich rhan roi sylw iddi bob dydd. Pan fydd rhywun arall yn gofalu am eich cwningen mae'n gyfrifol yn gyfreithiol am ei lles a dylech sicrhau ei fod yn deall ei hanghenion ac unrhyw ofynion arbennig a allai fod ganddi.
- 1.43 Mae'n well gan lawer o gwningod aros mewn amgylchedd cyfarwydd, ond dylech wneud trefniadau addas â chymydog neu rywun arall sy'n barod i'w gwarchod. Gwnewch yn siŵr eu bod yn gallu diwallu pob un o anghenion eich cwningen.
- 1.44 Efallai yr hoffech ystyried a fyddai'n well defnyddio llety preswyl da, lle gall rhywun sy'n deall cwningod ofalu am eich cwningen.



Cod Ymarfer
er Lles Cwningod
Adran 2 - Deiet





Deiet

Yr angen am ddeiet iach

2.1 Mae'r adran hon yn cynnig cyngor ar roi deiet iach i'ch cwningen.

Bwyd

- 2.2** Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod eich cwningen yn cael deiet priodol. Mae cwningod yn llysysyddion; mae angen deiet ffeibrog arnynt i dreulio eu dannedd sy'n tyfu'n barhaus, i sicrhau bod eu coluddion yn gweithio'n iawn ac i'w cadw rhag diflasu.
- 2.3** Nid yw cwningen yn gallu cael yr holl faethynnau sydd ei hangen arni o dreulio'r bwyd y tro cyntaf. Mae'r bwyd ar ôl y cnoiad cyntaf hwn, yn pasio drwy'r corff ar ffurf peledi meddal. Mae'r gwningen yn bwyta'r rhain ac yn eu haildreulio. Mae'r gwningen yn cynhyrchu baw crwn brown hefyd, nad yw'n ei fwyta fel arfer.
- 2.4** Dylai deiet dyddiol cwningen gynnwys llawer o wair neu laswellt sych neu ffres a fydd yn rhoi'r ffeibr angenrheidiol iddi. Dylai fod gan gwningod wair i'w fwyta ddydd a nos.
- 2.5** Gellwch roi planhigion gwyrdd i'ch cwningen, a dylai gweddill ei deiet gynnwys ychydig o fwydydd arbenigol ar gyfer cwningod megis nuggets neu beledi o ansawdd da. Gall cymysgeddau tebyg i fiwslï fod yn ddeniadol i chi, ond rhaid sicrhau bod eich cwningen yn cael deiet cytbwys oherwydd gall ddewis y cynhwysion mwyaf blasus o'r bwyd, arfer a elwir yn aml yn fwyta dewisol. Gofalwch fod eich cwningen wedi bwyta ei phryd diwethaf i gyd cyn cynnig mwy iddi a thafwch unrhyw fwyd sydd wedi llwydo cyn gynted ag y byddwch yn ei weld.
- 2.6** Gellir bwydo porfa ffres i gwningen os yw wedi cael ei thynnu'n syth o'r ddaear, ond dylid osgoi ochrau'r ffordd, sy'n gallu bod yn frwnt, neu fannau lle mae'r borfa'n debygol o fod wedi'i thrin â phlaladdwyr neu wedi'i llygru â baw anifeiliaid. Gall toriadau o'r lawnt a meillion effeithio ar system dreulio'r gwningen.
- 2.7** Gall deiet anaddas a gorfwydo arwain at ordewdra, a phroblemau â'r dannedd a'r perfedd. Gellwch roi gwreiddlysiau neu ffrwythau i'ch cwningen o bryd i'w gilydd, ond gan fod llawer iawn o siwgr mewn moronen, rhowch y pennau a dim ond ychydig o'r foronen ei hun iddi. Peidiwch â rhoi gormod o ddanteithion arbenigol



i'ch cwningen. Peidiwch â rhoi danteithion gludiog sy'n llawn siwgr rhag niweidio dannedd y gwningen.

- 2.8** Mae cwningod yn sensitif iawn i unrhyw newid yn eu deiet felly rhaid cyflwyno unrhyw beth newydd yn raddol. Mae hyn yn arbennig o wir wrth ddiddefnu cwningod a'u cyflwyno i blanhigion gwyrdd. Mae planhigion gwyrdd addas yn cynnwys brocoli, bresych, persli, berwr y dŵr, dail seleri a chêt. Mae planhigion gwyllt diogel yn cynnwys gwlydd, mieri, dail mafon, mwyar a mefus a dant y llew. Dylech olchi a sychu pob bwyd gwyrdd. Gallwch roi brigau o goed diogel fel coed afalau a gellyg sydd heb gael eu trin â phlaladdwyr i'ch cwningen gnoi arnynt i'w helpu i dreulio ei dannedd. Peidiwch byth â rhoi planhigyn i'ch cwningen ei fwyta heb wybod beth yw e ac a yw'n ddiogel. Mae llawer o blanhigion yn wenwynig i gwningod.
- 2.9** Gall unrhyw newid o ran faint o fwyd y mae eich cwningen yn ei fwyta fod yn arwydd o salwch. Gweler Adran 5.

Dŵr

- 2.10** Rhaid gofalu bod dŵr ffres ar gael i'ch cwningen bob amser a hynny, os yn bosibl, mewn potel fwydo â blaen metel. Dylech ei glanhau'n rheolaidd a sicrhau nad yw'n gollwng ac nad oes rhwystrau aer.
- 2.11** Mewn tywydd oer, gwnewch yn siŵr nad yw'r dŵr yn rhewi.
- 2.12** Efallai y byddai'n well gan eich cwningen yfed o bowlen ac er bod hynny'n llai hylan na photel, mae'n bwysig cofio mai'r peth gorau i'w wneud yw defnyddio'r hyn sy'n gyfarwydd i'ch cwningen.
- 2.13** Os ydych am roi dŵr drwy ryw ddull newydd, gallai'ch cwningen wrthod ei yfed a bydd ei chorff yn dechrau mynd yn brin o ddŵr.

Pwysau iach

- 2.14** Ni ddylai'ch cwningen fod yn rhy dew nac yn rhy denau. Yn ddelfrydol, dylai fod modd i chi deimlo ei hasennau'n hawdd. Newidiwch faint o fwyd rydych yn ei roi i'ch cwningen i wneud yn siŵr nad yw'n rhy drwm nac yn rhy ysgafn. Gall cwningod sy'n rhy drwm neu'n rhy ysgafn fynd yn sâl.

Anghenion Deietegol Eraill

- 2.15** Weithiau mae gan gwningod anghenion deietegol eraill, er enghraifft pan fyddan nhw'n gwella ar ôl cyfnod o salwch neu pan fyddan nhw'n feichiog. Bydd eich milfeddyg neu arbenigwr gofal anifeiliaid anwes cymwys yn gallu rhoi cyngor i chi ar hyn.





Cod Ymarfer
er Lles Cwningod
Adran 3 - Ymddygiad





Ymddygiad

Yr angen iddi allu dilyn patrymau ymddwyn naturiol

- 3.1** Mae'r adran hon yn cynnig cyngor ar ymddygiad eich cwningen.
- 3.2** Gan fod llawer o anifeiliaid yn hela cwningod, maen nhw'n dychryn yn hawdd. Mae hyn yn gallu eu gwneud nhw'n anifeiliaid cymhleth i'w cadw.
- 3.3** Mae ofn yn ymateb sy'n galluogi anifail i osgoi sefyllfaoedd peryglus. Fodd bynnag, mae anifeiliaid neu bobl sy'n teimlo ofn trwy'r amser o dan dipyn o straen. Bydd yn effeithio ar eu hiechyd a'u lles.

Profiadau cynnar

- 3.4** Mae pob cwningen yn unigolyn ac mae rhai'n naturiol fwy hyderus na'i gilydd. Fodd bynnag, mae profiadau cwningen yn ystod ei hwythnosau cyntaf yn dylanwadu'n drwm ar ei hymddygiad.
- 3.5** Mae cymdeithasoli â phobl a chwningod yn rhan hanfodol o 'addysg' cwningen ifanc. Y bridiwr sy'n dechrau'r broses a dylai sicrhau bod y gwningen ifanc yn cael ei chyflwyno i bobl, gwrthrychau a synau gwahanol fel ei bod yn datblygu'n oedolyn hyderus. Yn gyffredinol, bydd cwningod sy'n cael eu 'cymdeithasoli' yn dda o oedran ifanc yn gallu ymdopi â'r rhan fwyaf o sefyllfaoedd a phobl newydd yn hyderus pan fyddant yn gwningod llawndwf. Os yw eich cwningen yn debygol o ddod i gysylltiad â chathod, cŵn neu anifeiliaid eraill mae'n bwysig ei chyflwyno iddyn nhw'n raddol ac mewn ffordd gadarnhaol o oedran ifanc. Peidiwch byth â gadael eich cwningen gyda chath na chi ar ei phen ei hun, hyd yn oed os ydyn nhw'n adnabod ei gilydd.
- 3.6** Gall cwningen lawndwf sydd heb gael profiadau cynnar digonol neu addas ei chael hi'n anodd iawn ymdopi â bywyd beunyddiol. Efallai y bydd yn straen iddi ac yn ei gwneud yn nerfus iawn, a gall dreulio cryn dipyn o'i hamser yn cuddio. Gall yr ofn hwn wneud i'r gwningen fod yn gas wrth ei pherchnogion pan fyddan nhw'n ceisio ei dal a'i chodi.
- 3.7** Wrth gyflwyno cwningen ifanc neu gwningen lawndwf i rywbeth newydd, dylech bob amser roi cyfle iddi ddianc i guddfan ddiogel. Gall gorfodi eich cwningen i wynebu sefyllfa ddieithr arwain at broblemau ymddygiad.



Dylai'r perchennog wneud y sefyllfa mor hamddenol a dymunol â phosibl i'w gwningen fel ei bod yn awyddus i ymchwilio i wybod mwy am y peth newydd.

- 3.8** Cyn prynu cwningen, dylai'r darpar berchennog ofalu bod y gwningen yn ddigon hen i fyw heb ei mam, sef ei bod dros 8 wythnos oed. Dylai'r gwningen fod yn fywiog ac yn effro ac ni ddylai ymddangos o dan straen nac yn gysglyd. Holwch beth yw brîd y gwningen i wybod faint y bydd yn tyfu.
- 3.9** Ar ôl dod â'ch cwningen newydd adref, cyflwynwch hi'n raddol i'r arfer o gael ei dal ac i bobl a phethau a synau cyffredin, gan sicrhau bob amser bod ganddi le diogel i guddio ynddo.

Arwyddion o straen

- 3.10** Bydd cwningod bodlon yn dawel ac yn ddiidig. Byddant yn cnoi ar fwyd, yn eistedd neu'n gorwedd ar eu hyd a byddant yn hapus i fynd at bobl, cwningod eraill, ac anifeiliaid a gwrthrychau eraill, a rhyngweithio â nhw.
- 3.11** Mae cwningod yn ymateb i straen mewn ffyrdd gwahanol. Mae'n bwysig eich bod yn sylwi ar unrhyw newidiadau yn ymddygiad eich cwningen. Gan amlaf, pan fydd cwningod yn cael ofn, eu dewis cyntaf fydd rhedeg i ffwrdd i guddfan dawel. Mae hyn yn ymddygiad naturiol, ond mae'n achos pryder os yw'n digwydd yn amlach na phob hyn a hyn.
- 3.12** Dylech allu adnabod arwyddion o straen yn eich cwningen. Gall arwyddion o straen gynnwys:
- ymddangos yn nerfus (rhyngu, yn ei chrwman gyda'i chlustiau'n gorwedd yn wastad yn erbyn ei chorff);
 - bod yn anarferol o anniddig a gwylidwrus (llygaid yn sefyll allan);
 - ymddwyn yn ffyrnig tuag at bobl neu gwningod eraill, yn enwedig os yw hynny'n anarferol;
 - ymddwyn yn ffyrnig pan gaiff ei chodi a'i dal;
 - bod yn gysglyd, heb ddiddordeb yn ei hamgylchedd, bwyd ac ati;
 - bod yn aflonydd;
 - ymddwyn yn ddielni iawn;
 - cuddio neu geisio rhedeg i ffwrdd;
 - anadlu'n drwm;
 - arferion gwahanol o ran bwyta neu fynd i'r toiled;
 - trin a golchi ei hun yn ormodol;
 - peidio â thrin a golchi ei hun;
 - gwneud symudiadau ailadroddus nad oes llawer o ddiben iddynt, megis cnoi potel ddŵr, cnoi bariâu, symud mewn cylchoedd neu siglo ei phen.



- 3.13** Os gwelwch unrhyw un o'r arwyddion hyn o straen dylech gysylltu â'ch milfeddyg ar unwaith. Bydd eich milfeddyg yn gallu rhoi cyngor i chi ar y peth gorau i'w wneud. Gall hyn gynnwys mynd â'ch cwningen i weld ymddygiadwr anifeiliaid cymwys.
- 3.14** Dylech gymryd camau rhesymol i ddiogelu'ch cwningen rhag straen. Dyma bethau cyffredin a all beri straen:
- pethau newydd (er enghraifft y daith gyntaf mewn car neu gael ei dal gan ddieithryn);
 - pethau sy'n codi ofn (er enghraifft synau annisgwyl);
 - straen cymdeithasol (er enghraifft gormod o unigolion mewn lle bach, colli ffrind, byw ar ei phen ei hun);
 - methu â dilyn patrymau ymddwyn arferol (er enghraifft diffyg cwmniaeth neu symbyliad meddyliol, dim digon o ymarfer corff neu ddim yn cael rhedeg i ffwrdd oddi wrth rywbeth sy'n achosi straen);
 - poen, anesmwythyd neu salwch (gweler Adran 5);
 - methu ag osgoi ffactorau amgylcheddol (er enghraifft, golau neu dymheredd);
 - dim digon o le;
 - ddim yn cael bwyd na dŵr;
 - diflastod;
 - dim digon o aer (gweler Adran 1.19)

Dianc rhag perygl

- 3.15** Mae'n naturiol i gwningod guddio rhag perygl go iawn neu ymddangosiadol yn ogystal ag amgylchiadau sy'n peri straen, megis sŵn, presenoldeb anifeiliaid eraill neu blant ifanc.
- 3.16** Dylech ofalu bod gan eich cwningen guddfafan ddiogel y gall fynd iddi'n hawdd bob amser (megis pibell lydan, bocsbord neu ran dawel o'r lle byw).

Diflastod a Rhwystredigaeth

- 3.17** Mae'ch cwningen yn dibynnu arnoch chi am bopeth, gan gynnwys difyrwrch. Dylech sicrhau bod eich cwningen yn cael digon i symbylu ei meddwl gennych chi a'i hamgylchedd i osgoi diflastod a rhwystredigaeth. Bydd cwningen sydd heb ddim i'w wneud yn colli'i hiechyd ac yn mynd yn anhapus ac, o bosibl, yn ffyrnig mewn byr amser.
- 3.18** Eich cyfrifoldeb chi yw rhoi cyfleoedd i'ch cwningen ddiwallu ei holl anghenion ymddygiadol.



- 3.19** Dylech roi cyfle i'ch cwningen gael ei symbylu'n feddyliol, er enghraifft:
- mae chwilio am fwyd a chael gwrthrychau addas i chwarae â nhw yn ffyrdd ardderchog o gadw cwningen yn brysur;
 - cwmni cwningen arall lle bo hynny'n briodol (gweler Adran 4). Mae cwningod yn anifeiliaid chwilfrydig a dylid rhoi'r cyfle iddynt archwilio a threulio amser gydag eitemau anghyfarwydd sy'n ddiogel iddynt gnoi arnynt;
 - rhoi defnyddiau addas i'ch cwningen fel ei bod yn gallu cloddio ac ardaloedd iddi farcio ei thiriogaeth gyda hylif o'i gên, wrin a baw.
- 3.20** Dylech gadw golwg ar eich cwningen wrth gyflwyno unrhyw beth newydd iddi rhag ei dychryn a rhag iddi ddioddef straen (gweler arwyddion o straen uchod).
- 3.21** Peidiwch byth â gweiddi ar eich cwningen na'i chosbi. Mae'n annhebygol o ddeall a gall fynd yn fwy nerfus neu ofnus. Os bydd ymddygiad eich cwningen yn parhau i fod yn broblem, gofynnwch am gyngor arbenigol.

Ymddygiad atgenhedlu


- 3.22** Mae atgenhedlu yn un agwedd ar ymddygiad naturiol cwningen. Fodd bynnag, dylai perchnogion ystyried sbaddu cwningod anwes am y rhesymau a ddisgrifir yn Adrannau 4 a 5.





**Cod Ymarfer
er Lles Cwningod
Adran 4 - Cwmni**





Cwmni

Yr angen iddi gael bod gydag anifeiliaid eraill neu ar wahân iddynt

- 4.1** Mae'r adran hon yn cynnig cyngor ar drefnu cwmni addas i'ch cwningen. Efallai na fydd yr adran hon yn berthnasol os ydych yn bwriadu defnyddio eich cwningen ar gyfer bridio.
- 4.2** Os ydych yn bwriadu defnyddio eich cwningen ar gyfer bridio, dylech ofyn am gyngor gan eich arbenigwr gofal anifeiliaid anwes. Dylech sbaddu'ch cwningen oni bai eich bod am ei chadw ar gyfer bridio (gweler Adran 5).
- 4.3** Mae cwningod yn anifeiliaid cymdeithasol ac yn ddelfrydol dylen nhw gael cwmni addas.
- 4.4** Os caiff eich cwningen fod ar ei phen ei hun am gyfnodau hir, bydd yn teimlo'n rhwystredig a gall ei hymddygiad newid i ddangos y straen hwn.
- 4.5** Mae anifeiliaid eraill fel cŵn, cathod, pobl ac adar yn codi ofn greddfol ar gwningen. Drwy eu hyfforddi'n ofalus a'u trin yn sensitif iawn, gall cwningod anwes ddysgu mwynhau cwmniaeth pobl (gweler Adran 3).
- 4.6** Bydd cwningen fel arfer yn dewis treulio cryn dipyn o'i hamser yng nghwmni cwningen gyfeillgar arall. Byddai cwningen wedi'i sbaddu sy'n debyg o ran maint yn bartner addas.
- 4.7** Bydd cwningod yn derbyn mochyn cwta yn gwmni iddynt, ond nid argymhellir hyn. Gallai coesau ôl pwerus cwningen fach hyd yn oed achosi anaf mewnol difrifol i fochyn cwta a allai ei ladd. Mae gan gwningod a moch cwta anghenion gwahanol o ran deiet a ffyrdd gwahanol o gyfathrebu hefyd.
- 4.8** Os caiff cwningod o faint gwahanol eu cadw gyda'i gilydd, dylech ddarparu cuddfannau, fel y gall cwningen lai o faint ddianc rhag cwningod mwy.
- 4.9** Os ydych yn cadw cwningod mewn parau neu mewn grwpiau, bydd angen i'r lle byw fod yn ddigon mawr i nifer y cwningod sydd gennych. Gwnewch yn siŵr bod gan eich cwningen fannau i fynd iddyn nhw er mwyn bod ar ei phen ei hun os yw'n dymuno.
- 4.10** Dylai cwningen, p'un a yw'n cael ei chadw ar ei phen ei hun neu gyda chwningod eraill, gael y cyfle i ryngweithio â'i pherchennog sawl awr bob dydd.



Cyflwyno a chadw cwningod gyda'i gilydd

4.11 Bydd perthynas lwyddiannus rhwng dwy gwningen yn dibynnu ar nifer o ffactorau pwysig. Bydd angen ystyried y canlynol yn ofalus iawn wrth ddod â dwy gwningen ynghyd:

- Sut, ble a phryd y byddwch yn eu cyflwyno i'w gilydd;
- Eu rhyw (gwryw neu fenyw);
- A ydyn nhw wedi'u sbaddu;
- Eu hoedran;
- Eu personoliaeth;
- Eu profiadau blaenorol mewn bywyd - yn enwedig pan oedden nhw'n ifanc iawn;
- Eu maint - gallai cwningen lai o faint neu ifanc gael ei hanafu neu ei bwlio gan gwningen fwy neu hŷn.

4.12 Os ydych yn cyflwyno cwningod i'w gilydd dylech ofyn i arbenigwr gofal am gyngor ar sut i leihau'r risg o ymladd a phroblemau lles eraill.





- 4.13** Os bu'n rhaid gwahanu eich cwningod am unrhyw reswm, er enghraifft am fod un wedi gorfod cael triniaeth, dylech ofyn i arbenigwr gofal sut i'w hailgyflwyno er mwyn lleihau'r risg o ymladd a phroblemau lles eraill.



Cod Ymarfer
er Lles Cwningod
Adran 5 - Iechyd a Lles





Iechyd a Lles

Yr angen i'w diogelu rhag poen,
dioddefaint, anaf ac afiechyd

5.1 Mae'r adran hon yn cynnig cyngor ar iechyd a lles eich cwningen.

Gofal iechyd

5.2 Mae iechyd da yn rhan hanfodol o les da cwningod. Eich milfeddyg sydd yn y sefyllfa orau i'ch cynghori ynglŷn â thriniaethau fel sbaddu, brechu, rheoli parasiteiaid mewnol ac allanol yn ogystal ag unrhyw broblemau iechyd a allai fod ganddi. Gall rhai meddyginiaethau ar gyfer pobl neu anifeiliaid eraill fod yn beryglus iawn i gwningod. Peidiwch â defnyddio unrhyw feddyginiaethau ar wahân i rai y mae milfeddyg wedi'u rhoi ar bresgripsiwn neu wedi'u hargymell yn benodol ar gyfer eich cwningen. Efallai y bydd triniaethau cyflenwol a meddyginiaethau y gellir eu prynu heb bresgripsiwn ar gael hefyd o siopau anifeiliaid anwes a siopau eraill. Mae'n bosibl y bydd angen i berson â chymwysterau addas fod yn bresennol yn achos rhai triniaethau.

5.3 Fel y sawl sy'n gyfrifol am les eich cwningen dylech ystyried y canlynol:

- atal afiechyd: mae brechlynnau ar gael i ddiogelu cwningod rhag afiechydon fel Myxomatosis a Feirws Clefyd y Gwaedlif (VHD). Mae'r ddau'n lladd cwningod a dylech eu brechu yn eu herbyn. Holwch eich milfeddyg am wybodaeth am atal afiechydon;
- rhoi deiet cytbwys ac iach (gweler Adran 2);
- rhoi'r amgylchedd iawn iddi sy'n ei diogelu rhag anaf ac afiechyd (gweler Adran 1);
- gweithredu ar unwaith os bydd cwningen yn mynd yn sâl neu'n ymddwyn yn wahanol;
- archwilio'ch cwningen bob dydd.

5.4 Gofalwch nad yw eich cwningen yn dod i gysylltiad â chwningod gwyllt neu ardaloedd lle mae cwningod gwyllt wedi bod.

Salwch

5.5 Dylech fod yn ymwybodol o'r arwyddion sy'n awgrymu bod eich cwningen yn anhwylyd.



- 5.6** Ewch i weld milfeddyg os bydd eich cwningen yn dangos unrhyw arwydd o salwch neu ymddygiad gwahanol.
- 5.7** Rhag tynnu sylw'r llawer o anifeiliaid sy'n eu hela, dyw cwningod ddim yn dangos arwyddion salwch nes eu bod yn sâl iawn. Gall unrhyw newid yn ei hymddygiad, gan gynnwys colli'r awydd am fwyd, fod yn arwydd bod eich cwningen yn sâl.
- 5.8** Gall arwyddion o salwch gynnwys:
- newid yn ei hymddygiad, megis eistedd yn llonydd yn ei chrwman;
 - newid arferion bwyta ac yfed, megis colli'r awydd am fwyd neu syched mawr;
 - arwyddion o anaf, fel coes wedi chwyddo, cerdded yn rhyfedd;
 - arwyddion o afiechyd neu salwch, megis llif o'r llygaid, y clustiau neu'r trwyn, anhawster wrth fynd i'r toiled neu ddolur rhydd;
 - arwyddion o boen, megis ddim yn fodlon gadael i neb gyffwrdd â hi mewn rhai manau o'i chorff;





- crensiàn dannedd;
- gwingo;
- anawsterau anadlu, yn enwedig os yw'ch cwningen yn anadlu drwy'i cheg yn hytrach na'i thrwyn;
- cochni ar y croen o gwmpas y bol, y pen ôl neu o dan y traed.

Archwiliad Iechyd Rheolaidd

5.9 Dylech archwilio'ch cwningen yn rheolaidd am arwyddion o salwch. Rhestrir isod y pethau y dylech eu harchwilio:

Archwiliadau dyddiol	Archwiliadau wythnosol
Ymddygiad - gwylwch eich cwningen o leiaf unwaith y dydd i sicrhau ei bod yn ymddwyn yn ôl yr arfer a'i bod yn bwyta ac yn yfed fel arfer.	Ewinedd - gwnewch yn siŵr nad ydyn nhw'n rhy hir ac nad ydyn nhw wedi'u niweidio.
Traed - cadwch lygad am fannau moel a briwiau.	
Ffwr - chwiliwch am baraseitiaid, cen, moelni, briwiau sy'n cosi, croen sych, croen a chlwyfau llaith neu ddiferol.	Dannedd - gofalwch bod eu siâp a'u hyd yn iawn.
Llygaid - sicrhewch eu bod yn glir, heb lif. Mae llygaid sy'n diferu yn aml yn arwydd o anhwylder anadlu sy'n gallu troi'n niwmonia.	
Trwyn - sicrhewch nad yw'n diferu. Mae trwyn sy'n diferu yn aml yn arwydd o anhwylder anadlu sy'n gallu troi'n niwmonia.	
Clustiau - chwiliwch am gwyr sych.	Ceg - edrychwch am ên wlyb neu lafoerion. Am fod cwningod yn anifeiliaid glân iawn efallai na fydd yn hawdd sylwi ar hyn. Fodd bynnag, bydd eu hôl i'w gweld ar y ffwr ar ei brest.
Pen-ôl y gwningen - edrychwch ar ben-ôl y gwningen, yn ogystal â llawr ei lle byw, am olion o ddolur rhydd. Ewch â hi i weld y milfeddyg ar unwaith os oes dolur rhydd arni.	



- 5.10** Yn ystod tywydd poeth, archwiliwch ben-ôl eich cwningen o leiaf ddwywaith y dydd am faw. Gall pen-ôl brwnt ddenu pryfed i ddodwy. Gall y cynrhon sy'n deor ohonyn nhw ladd cwningen ymhen ychydig oriau. Mae'r cynrhon yn bwyta croen y gwningen gan achosi niwed difrifol a rhyddhau gwenwynau. Gall hyn achosi sioc, salwch difrifol a hyd yn oed farwolaeth.
- 5.11** Cysylltwch â'ch milfeddyg ar unwaith os gwelwch gynrhon ar eich cwningen.
- 5.12** Os yw eich cwningen yn baeddu (trochi) ei hun dylech:
- sicrhau bod ei ffwr yn lân;
 - sicrhau bod llawr ei lle byw yn lân;
 - sicrhau bod digon o ffeibr (megis gwair, ond nid toriadau porfa) yn neiet eich cwningen;
 - lleihau faint o lysiau a ffrwythau sydd yn ei deiet;
 - gofyn am gymorth proffesiynol ar unwaith.
- 5.13** Mae'n syniad da pwyso eich cwningen o leiaf unwaith yr wythnos. Os yw'n colli pwysau, efallai bod ganddi broblem â'i dannedd neu broblem iechyd arall. Bydd bod yn ordrwm neu'n ordew yn peri dioddefaint i'ch cwningen. Gall problemau posibl gynnwys:
- straen ar ei chymalau;
 - traed poenus;
 - anhawster i ymarfer corff;
 - straen mewn gwres;
 - deiet annigonol gan nad yw'n gallu ymestyn i ddal y peledi meddal o'i phen ôl y mae angen iddi eu bwyta er mwyn cael yr holl ddaioni o'i bwyd;
 - gall ddenu cynrhon gan nad yw'n gallu glanhau ei hun yn iawn.

Trin a golchi

- 5.14** Mae cwningod yn bwrw'u blew yn naturiol ar ddiwedd y gaeaf ac yn ystod yr haf ond mae ein tymheredd amrywiol, yn ogystal â gwres canolog, yn golygu bod llawer o gwningod yn bwrw'u blew (colli ffwr) drwy'r amser. Mae angen trin a golchi'ch cwningen yn rheolaidd i'w chadw'n gyfforddus a'i rhwystro rhag llyncu gormod o ffwr a blocio'r perfedd. Dylid trin a golchi cwningod blew byr unwaith yr wythnos ond dylid golchi a thrin cwningod hirflew o leiaf unwaith bob dydd i rwystro'r blew rhag mynd yn dalpau ac yn glymau i gyd. Gall milfeddyg neu arbenigwr gofal dorri blew cwningod hirflew.



Ewinedd

5.15 Dylech gadw ewinedd eich cwningen ar hyd priodol. Mae ewinedd cwningod yn treulio'n naturiol wrth symud ar arwynebau caled ac wrth balu. Bydd pa mor aml y bydd angen i chi dorri ewinedd eich cwningen yn dibynnu ar ble rydych yn ei chadw.

Gofal Deintyddol

5.16 Bydd dannedd eich cwningen yn tyfu'n barhaus drwy gydol ei bywyd. I gael dannedd iach, rhaid iddi fwyta llawer o wair a glaswellt a fydd yn treulio ei dannedd.

5.17 Edrychwch ar ddannedd blaen eich cwningen i ofalu nad ydynt yn gam nac yn rhy hir. Dim ond milfeddyg ddylai geisio trin dannedd sy'n gam neu'n rhy hir.

5.18 Mae'n anodd gweld y dannedd ôl ac felly gofynnwch i'ch milfeddyg eu harchwilio. Gallant dyfu'n gam gydag ymylon miniog gan achosi poen i'ch cwningen wrth iddi fwyta.

5.19 Gall problemau dannedd arwain at golli archwaeth, gên wlyb neu lafoerion. Os gwelwch unrhyw un o'r symptomau hyn, ewch â hi at eich milfeddyg ar unwaith.



Sbaddu

- 5.20** Un peth hynod o bwysig y mae angen i chi ei ystyried yw sbaddu'ch cwningen. Ni chewch gwningod bach diangen ac mae manteision eraill hefyd. Mae cwningod sydd heb eu sbaddu yn tueddu i ymddwyn yn fwy anodd ac mae'n bosibl y byddant yn cael problemau iechyd.
- 5.21** Os na chaiff cwningen fenyw ei sbaddu gall:
- fod yn gas wrth gwningod eraill;
 - ceisio gwneud nyth drwy balu'r ddaear, sy'n gallu niweidio ei hewinedd;
 - datblygu anhwylder neu ganser yn y groth sy'n berygl bywyd iddi.
- 5.22** Os na chaiff cwningen gwryw ei sbaddu gall:
- fod yn gas wrth gwningod eraill;
 - chwistrellu wrin;
 - mynd ar gefn cwningod ac anifeiliaid eraill.
- 5.23** Gall cwningen heb ei sbaddu sy'n cael ei rhwystro rhag bridio deimlo'n rhwystredig gan achosi problemau ymddygiad. Dyma rai o'r rhesymau pam y dylech sbaddu'ch cwningen os nad ydych am gael rhai bach.
- 5.24** Mae cwningod yn anifeiliaid cymdeithasol iawn, a dylech ofalu bod ganddyn nhw gwmni (gweler Adran 4). Ond efallai na fydd modd ichi gadw cwningen heb ei sbaddu gyda chwningod eraill. Mae'r oedran gorau i sbaddu cwningen yn dibynnu ar ryw a brîd y gwningen. Fel arfer, caiff cwningod benyw eu sbaddu pan fyddan nhw'n aeddfedu'n rhywiol yn 4 mis oed a chaiff rhai gwryw eu sbaddu pan fyddan nhw'n 3 mis oed.
- 5.25** Os ydych yn ystyried bridio cwningod, rhaid ichi sicrhau eich bod yn gallu gofalu am les y rhieni a'u cwningod bach. Trafodwch y mater â'ch milfeddyg yn ôl y gofyn. Gofalwch eich bod yn gallu dod o hyd i gartrefi addas ar gyfer y cwningod bach a pheidiwch â gadael iddyn nhw fagu heb ichi fwriadu hynny.
- 5.26** Gall cwningen fenyw eni rhwng 4 a 12 o rai bach ar y tro, a gall feichiogi unwaith eto yn fuan wedi hynny. Os caiff ei chadw gyda gwryw sydd heb ei sbaddu, gall gael 6 thorllwyth y flwyddyn, sy'n golygu 72 o rai bach o bosibl.
- 5.27** Trafodwch fanteision ac anfanteision sbaddu'ch cwningen, yn ogystal â phryd y dylech wneud hynny, â'ch milfeddyg.



Adnabod


5.28 Peidiwch â gadael i'ch cwningen ddianc. Ond, os bydd yn dianc ac os daw rhywun o hyd iddi, yna bydd defnyddio dyfais adnabod barhaol megis microsglodyn yn helpu i'w chael yn ôl atoch. Dim ond unigolyn â chymwysterau addas ddylai gael tagio'ch cwningen.

Beth i'w wneud os bydd eich cwningen yn mynd ar goll

5.29 Cysylltwch â warden anifeiliaid eich awdurdod lleol, milfeddyg a'r ganolfan achub leol. Gallwch hefyd osod hysbysebion yn yr ardal.

Atodiad 1

Cod Ymarfer er Lles Cwningod
Y Gyfraith







Y Gyfraith

Deddf Lles Anifeiliaid 2006

Cyfeirir at yr adrannau canlynol o'r Ddeddf yn y cod ac fe'u nodir yma er hwylustod:

Mae'r blychau isod yn cynnwys darnau o'r adrannau perthnasol o'r Ddeddf.

Mae'r blwch wedi'i dywyllu yn crynhoi'r troseddau a'r cosbau perthnasol yn y Ddeddf.

Mae Adran 3 o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 yn darparu:

Responsibility for animals

- (1) In this Act, references to a person responsible for an animal are to a person responsible for an animal whether on a permanent or temporary basis.
- (2) In this Act, references to being responsible for an animal include being in charge of it.
- (3) For the purposes of this Act, a person who owns an animal shall always be regarded as being a person who is responsible for it.
- (4) For the purposes of this Act, a person shall be treated as responsible for any animal for which a person under the age of 16 years of whom he has actual care and control is responsible.

Mae Adran 4 o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 yn darparu:

Unnecessary suffering

- (1) A person commits an offence if:-
 - (a) an act of his, or a failure of his to act, causes an animal to suffer,
 - (b) he knew, or ought reasonably to have known, that the act, or failure to act, would have that effect or be likely to do so,
 - (c) the animal is a protected animal, and
 - (d) the suffering is unnecessary.
- (2) A person commits an offence if:-
 - (a) he is responsible for an animal,
 - (b) an act, or failure to act, of another person causes the animal to suffer,



- (c) he permitted that to happen or failed to take such steps (whether by way of supervising the other person or otherwise) as were reasonable in all the circumstances to prevent that happening, and
 - (d) the suffering is unnecessary.
- (3) The considerations to which it is relevant to have regard when determining for the purposes of this section whether suffering is unnecessary include:-
- (a) whether the suffering could reasonably have been avoided or reduced;
 - (b) whether the conduct which caused the suffering was in compliance with any relevant enactment or any relevant provisions of a licence or code of practice issued under an enactment;
 - (c) whether the conduct which caused the suffering was for a legitimate purpose, such as:-
 - (i) the purpose of benefiting the animal, or
 - (ii) the purpose of protecting a person, property or other animal;
 - (d) whether the suffering was proportionate to the purpose of the conduct concerned;
 - (e) whether the conduct concerned was in all the circumstances that of a reasonably competent and humane person.
- (4) Nothing in this section applies to the destruction of an animal in an appropriate and humane manner.

Mae Adran 9 o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 yn darparu:

Duty of person responsible for animal to ensure welfare

- (1) A person commits an offence if he does not take such steps as are reasonable in all the circumstances to ensure that the needs of an animal for which he is responsible are met to the extent required by good practice.
- (2) For the purpose of this Act, an animal's needs shall be taken to include:-
 - (a) its need for a suitable environment,
 - (b) its need for a suitable diet,
 - (c) its need to be able to exhibit normal behaviour patterns,
 - (d) any need it has to be housed with, or apart from, other animals, and
 - (e) its need to be protected from pain, suffering, injury and disease.
- (3) The circumstances to which it is relevant to have regard when applying subsection (1) include, in particular:-
 - (a) any lawful purpose for which the animal is kept, and
 - (b) any lawful activity undertaken in relation to the animal.
- (4) Nothing in this section applies to the destruction of an animal in an appropriate and humane manner.



Mae Adran 14 o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 yn darparu:

Codes of Practice

- (3) A person's failure to comply with a provision of a code of practice issued under this section shall not of itself render him liable to proceedings of any kind.
- (4) In any proceedings against a person for an offence under this Act or an offence under regulations under section 12 or 13:-
 - (a) failure to comply with a relevant provision of a code of practice issued under this section may be relied upon as tending to establish liability, and
 - (b) compliance with a relevant provision of such a code of practice may be relied upon as tending to negative liability.

Troseddau a Chosbau

Gellir carcharu person sy'n cael ei gollfarnu o drosedd o dan adran 4 o'r Ddeddf am hyd at 51 wythnos* a/neu roi dirwy o hyd at £20,000 iddo. Os cânt eu collfarnu o drosedd o dan adran 9 (methu â sicrhau lles yr anifail) gallant gael eu carcharu am yr un uchafswm cyfnod a chael dirwy o hyd at lefel 5 o'r raddfa safonol - £5000 yw'r uchafswm ar hyn o bryd.

Gellir dwyn achos hyd at 3 blynedd ar ôl i'r drosedd gael ei chyflawni ond mae'n rhaid ei ddwyn o fewn 6 mis ar ôl i dystiolaeth ddigonol ar gyfer erlyniad fod ar gael i'r awdurdod erlyn. Cynhelir achosion troseddol o dan y Ddeddf yn y Llys Ynadon.

*** Gellir rhoi hyd at 6 mis o garchar hyd nes y daw adran 281 (5) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 i rym (pan fydd yn newid i 51 wythnos).**



Atodiad 2

Cod Ymarfer er Lles Cwningod
Ffynonellau gwybodaeth







Ffynonellau gwybodaeth

- Eich milfeddyg.
- The Royal College of Veterinary Surgeons, Belgravia House, 62-64 Horseferry Road, London SW1P 2AF (Rhif ffôn 020 7222 2001 neu www.rcvs.org.uk). Mae gan y wefan gyfleuster “find-a-vet”.
- Llyfrgelloedd lleol a siopau llyfrau i gael y llyfrau diweddaraf am ofalu am gwingod.

Gwefannau fel:

- Cymdeithas Cwnselwyr Ymddygiad Anifeiliaid Anwes: www.apbc.org.uk.
- Y Groes Las: www.thebluecross.org.uk.
- Cyngor Cwningod Prydain: www.thebrc.org.
- Cyngor Lles Anifeiliaid Anwes: www.cawc.org.uk.
- PDSA: www.pdsa.org.uk.
- Pwyllgor Cynghori ar Anifeiliaid Anwes: www.petadvisory.org.uk.
- Ymddiriedolaeth Gofal Anifeiliaid Anwes: www.petcare.org.uk.
- Cymdeithas Gweithgynhyrchwyr Bwyd Anifeiliaid Anwes: www.pfma.com.
- Cyngor Iechyd Anifeiliaid Anwes: www.pethealthcouncil.co.uk.
- Grŵp Cynghori ar Ymddygiad Cwningod: www.rabbitbehaviour.co.uk.
- Hyfforddi cwningod: www.clickerbunny.com.
- Y Gymdeithas a'r Gronfa Lles Cwningod: www.rabbitwelfare.co.uk.
- RSPCA (Y Gymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Anifeiliaid): www.rspca.org.uk.
- DEFRA (Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig): www.defra.gov.uk.
- Llywodraeth yr Alban: Amaethyddiaeth: www.scotland.gov.uk/topics/agriculture.
- Llywodraeth Cynulliad Cymru: www.cymru.gov.uk/llesanifeiliaid. Mae'r wefan hon yn rhoi gwybodaeth am Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 ac yn eich galluogi i lwytho i lawr gopiâu o'r Cod Ymarfer Er Lles Cwningod a chodau ymarfer ar gyfer anifeiliaid eraill.

Er mai dim ond i'r rhai sy'n berchen ar gwingod anwes ac yn eu cadw y mae'r Cod hwn yn berthnasol, gellir llwytho Code of Practice for the Welfare of Livestock - Rabbits i lawr o <http://www.defra.gov.uk/foodfarm/farmanimal/welfare/onfarm/otherpsps/rabcode.htm>



Gellir cael rhagor o gopiâu o'r ddogfen hon oddi wrth:

Y Ganolfan Gyhoeddiadau
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: assembly-publications@wales.gsi.gov.uk

